Cyngor Cymuned BODORGAN
Cofnodion Cyfarfod Nos Fawrth 12 MAWRTH 2019.

1A **Presennol:**

Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Mr Andrew Hughes, Mr Jeff Hughes, Mr Gareth Evans & Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorwyr Sirol: Mr Bryan Owen & Mr Peter Rogers.

1B **Ymddiheuriadau:**

Mr Myfyr Davies & Mr Gwilym Looms.

2 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3 **Datgan Diddordeb:**

Mr Andrew Hughes – Cais Cynllunio, Cae Eithin – Nad oedd y diddordeb personol yn un oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn yr eitem.

4 **Derbyn & Cywiro Cofnodion:**

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion Pwyllgor Llawn a gynhaliwyd ar y 22ain Ionawr 2019 yn gywir. **(AH/TO).**

5 **Materion yn Codi o'r Cofnodion.**

5.1 Carafan, Malltraeth – Cynghorydd Sirol Bryan Owen i wneud ymholiadau pellach gyda'r Cyngor Sir.

5.2 Sedd Gwag – ebost wedi ei dderbyn oddiwrth Miss Sharon Barton – Cynnig gan Andrew Hughes wedi ei eilio gan Jeff Hughes ein bod yn cyfethol Miss Sharon Barton yn ein cyfarfod nesaf.

5.3 Safle Maes Glas, Bethel – cafwyd adroddiad llawn a chefndir hanesyddol oddiwrth Mr Peter Rogers yn dilyn cyfarfod cafodd gyda Mr Huw Percy o'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir. Dywedodd y dylai gweld cynllun archwilio newydd yn dilyn er mwyn datblygu'r safle unwaith y daw arian Llywodraeth Cymulliad Cymru ar gael, a disgwylir cynnydd wedyn. Cafwyd trafodaeth gryno ac gofyn i Mr Rogers fynd a sylwadau y Cyngor yn nol at Mr Percy ac adrodd yn bellach yn y cyfarfod nesaf.

5.4 Cysgodfan Bysiau – disgwylir y bydd gwaith gosod y cysgodfan wedi ei cwblhau o fewn y dyddiau nesaf.

5.5 Ysgol Santes Ddwynwen – dywedodd Tim Owen fod y gwaith wedi ei orffen ac fod ymweliad ar safle wedi ei drefnu – disgwylir agor y safle diwedd Mis Ebrill.

Arwyddo.....

6 CYLLID.

6.1 Derbyn & Arwyddo Taliadau & Derbyniadau y Cyngor (Ionawr & Chwefror 2019) – derbyniwyd ac arwyddwyd yr adroddiad yn unfrydol.

6.2 Mabwysiadwyd Rheolau Statudol Newydd y Cyngor gan y Cadeirydd.

6.3 Mabwysiadwyd Rheolau Cyllid Newydd y Cyngor gan y Cadeirydd

7 Ceisiadau Cynllunio Newydd

7.1 **Cais Diwygio Amodau Caniatad Cais Cynllunio Cae Eithin, Malltraeth, Bodorgan – VAR/2019/14** -Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r safle hwn, sydd yn agos iawn at yr afon, a'r nifer o faterion eraill sydd heb eu datrys, roedd yr aelodau o'r farn na allent gefnogi'r cynigion diwygiedig gan eu bod yn methu â delio â methiannau sydd eto i'w datrys. O ganlyniad, gwrthwynebu'r cais diwygio presennol.

8 Adroddiad y Cynghorwyr Sirol.

8.1 Roedd yr adroddiad yn Canolbwyntio ar gofyniad am Referendwm ar Cyllid & Gwasanaethau y Cyngor Sir sydd wedi arwain at cynnydd 9.5% yn y dreth ac fe cafwyd trafodaeth cryno gyda pryderon ynghylch a dyfodol yr Ynys.

9 Adroddiad Ysgol Bodorgan

9.1 Adroddiad byr yn cadarnhau fod goriadau'r Ysgol yn mynd yn nol i'r Adran Eiddo y Cyngor Sir ar ddiwedd y mis.

10 Adroddiad Y Ganolfan

10.1 Adroddiad llawn diweddarf oddiwrth y Cadeirydd gan cynnwys fod Pwyllgor y Ganolfan wedi cyfarfod heb rhagfarnu gyda Mr Dylan Edwards o'r Adran Eiddo y Cyngor Sir er mwyn rhannu gwybodaeth a ceisio darganfod y sefyllfa presennol. Ni chafwyd unrhyw benderfyniad ond fe nodwyd nad oedd Adran Cyfreithiol y Cyngor Sir wedi ymateb i lythyr anfonwyd atynt gan Cwmni Cyfreithiwyr Ashurst ac fod angen ystyried cyfraniad tuag at Yswiriant & Materion Gwresogi yr adeilad yn ogystal fod angen sylw ac archwiliad pryderon lleithder a diffyg inswleiddio mewn rhannau o'r adeilad

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 14 MAI 2019 – Clowyd y cyfarfod am 8:00yh.

Arwyddo.....D.E. Jones.....**Cadeirydd**....14/5/2019....**Dyddiad.**

CYNGOR CYMUNED BODORGAN COMMUNITY COUNCIL.

Rhestr Taliadau & Derbyniadau y Cyngor.

TALIADAU / PAYMENTS.

Dyddiad	Rhif Siec	Taler	Disgrifiad	Swm
12/03/2019	239	Mr J Alun Foulkes	Cyflog Ionawr > Mawrth 2019	£1,881.14

DERBYNIADAU/ RECEIPTS:

12/03/2019	**HMRC – TAW 2019**	**£51.62**

CYSONI

Gweddill	**28 Chwefror 2019**	**£15,101.56**
Derbyniadau		**£ 51.62 +**
		£15,153.18
Llai Gwariant		**£ 1,881.14 -**
CYFANSWM	**31 Mawrth 2019**	**£13,272.04**

BANC

Cyfrif Cyffredol – 31 Mawrth 2019	**£13,272.04**
Llai Sieciau heb cyflwyno	**£ 0**
CYFANSWM	**£13,272.04**

Arwyddo.....**Cadeirydd**....14/5/2019.....**Dyddiad.**